

Fedri di ddweud faint o'r gloch yw hi?

Ceisiwch ofyn yn aml i'ch plentyn ddweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf. Defnyddiwch gloc â bysedd yn ogystal â chloc neu watsh ddirigidol.

Gofynnwch hefyd:

- ♦ Faint o'r gloch fydd hi un awr o nawr?
- ♦ Faint o'r gloch oedd hi awr yn ôl?

Amserwch eich plentyn wrth wneud gwahanol dasgau, e.e.

- ♦ paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol;
- ♦ tacluso ystafell wely;
- ♦ dweud tabl 5, tabl 10 neu dabl 2 ...


Gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu faint o amser fydd e/hi yn ei gymryd i wneud rhywbeth. A allant wella ar yr amser hwnnw wrth wneud hynny eto?

Ffracsiynau

Defnyddiwch 12 botwm, neu glipiau papur neu ffa sych neu ...

- ♦ Gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i **hanner** y 12 peth.
- ♦ Wedyn dod o hyd i **chwarter** yr un grŵp.
- ♦ Dod o hyd i **draean** y grŵp i gyd.

Ailadroddwch y gweithgaredd gan ddefnyddio rhifau eraill.




Trefnu, trefnu!

- ♦ Y ddau ohonoch i dynnu 6 chylch mewn rhes.
- ♦ Cymerwch dro.
- ♦ Rholiwch ddau ddis a gwnewch rif dau ddirigidol (gweler gêmâu Rhif).
- ♦ Ysgrifennwch eich rhif yn un o'r cylchoedd. Pan fydd y rhif wedi'i ysgrifennu yn y cylch allwch chi ddim ei newid na'i symud!
- ♦ Y cyntaf sy'n cael y chwe rhif yn eu cylchoedd mewn trefn sy'n ennill.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 3

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plant

Targedau – Blwyddyn 3 ₁

Erbyn diwedd Blwyddyn 3, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000 a'u rhoi yn eu trefn. Gwybod beth yw gwerth pob digid.
- Cyfrif ymlaen neu yn ôl fesul deg neu fesul gant o unrhyw rif dan 1000, e.e. 462, 472, 482 ... neu 462, 562, 662...
- Gwybod ffeithiau adio a thynnu hyd at 20 ar eu cof, e.e. $4 + 16 = 20$, $12 - 8 = 4$.
- Datrys symiau fel $56 + 29$, a $97 - 51$ yn eu pen.
- Gwybod tabl 2, 3, 5, 6 a 10 ar eu cof.
- Gwneud rhannu syml, fel $27 \div 5$.
- Darganfod ffracsiynau syml, fel $\frac{1}{2}$, $\frac{1}{3}$, $\frac{1}{4}$, $\frac{1}{5}$, $\frac{1}{10}$ siapiau a rhifau.
- Dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf.
- Defnyddio **£.c.** e.e. gwybod mai £2 a 4c yw £2.04.
- Datrys problemau rhif syml ac esbonio sut y cafwyd yr ateb.
- Adnabod onglau sgwâr a llinellau cymesuredd.
- Esbonio graff syml.

Y targedau


Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 3.

Mae'n bosib bod y targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai na fydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 1000 yn gwybod yr hyn y mae pob digid yn ei gynrychioli. Er enghraifft, yn y rhif 784, 80 yw gwerth yr '8', ac nid 8 yn unig.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Gêmau rhif

Rholiwch ddau ddis. Gwnewch rif dau ddigid, e.e. os ydych chi'n rholio 6 a 4, gallai hwn fod yn 64 neu'n 46. Os nad oes dau ddis gennych chi, rholiwch yr un dis ddwywaith. Gofynnwch i'ch plentyn wneud un neu fwy o'r gweithgareddau isod.



- ◆ Cyfrif ymlaen neu yn ôl o bob rhif fesul deg.
- ◆ Adio 19 at bob rhif yn eu pen. (Ffordd gyflym i wneud hyn yw adio 20 a thynnu 1.)
- ◆ Tynnu 9 o bob rhif (Ffordd gyflym i wneud hyn yw tynnu 10 ac adio 1 yn ôl.)
- ◆ Dyblu pob rhif.